

DOLEN Y TAB – 57

28–29 Mai 2021

Oedfa Sul 30 Mai

Yn fyw ar Zoom am 10.30

Mae croeso cynnes i chi i ymuno mewn gwasanaeth rhithiol byw a byr yng nghwmni Heulyn a Catrin Rees.

us02web.zoom.us



Oedfaon Mehefin

- 6 Aelodau Pentyrch.
- 13 Geraint Rees a'i ffrindiau.
- 20 Rhiannon a Gareth Humphreys.
- 27 Lyn West a'r teulu.

Hefyd ddydd Sul 30 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Dan ofal rhai o aelodau Urdd Gobaith Cymru.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

O'R DIWEDD

Fore Sul bydd y Tabernacl yn cymryd y cam cyntaf gofalus tuag at ailagor y capel pan fydd naw o aelodau'r Gynulleidfa Saesneg eu hiaith yn ymgynnull yn y Ganolfan i gynnal eu hoedfa gyntaf o unrhyw fath ers mis Mawrth y llynedd. Naw oedolyn yn unig all ei mynychu er mwyn cadw pellter o 2 fetr rhyngddynt. Bydd raid dilyn cyfyngiadau eraill, megis diheintio dwylo a gwisgo mwgwd, ynghyd â chyfarwyddiadau Mike West sydd wedi cynnal asesiad risg o'r adeilad. Wrth ddyuno pob bendith iddynt, hyderwn y cawn ninnau ddychwelyd i addoli yn y capel cyn bo hir.

YSGOGI'R DYFODOL

Nos Iau, cynhaliwyd Cwrdd Eglwys ar Zoom i ystyried cefnogi prosiect cyffrous iawn oedd wedi ei gynllunio dros y misoedd diwethaf gan yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi mewn ymateb i wahoddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i eglwysi'r enwad i lunio cais am gymorth ariannol. Mae rhaglen yr Undeb yn cynnig cymorth hyd at £10,000 y flwyddyn er mwyn galluogi eglwysi i fuddsoddi *'yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd'*.

Braf iawn oedd gweld cynifer â phymtheg ar hugain o wynebau cyfarwydd gyda'i gilydd mewn un man unwaith yn rhagor, ar waetha'r ffaith mai'n rhithiol oedd hynny. Gyda'i hynawsedd arferol llwyddodd Edwyn Evans, Cadeirydd y Bwrdd, i greu naws gartrefol ac agored. Wedi iddo grynhoi diben y cyfarfod, olrheiniodd y broses o gynllunio a datblygu prosiect priodol i Gapel y Tabernacl wrth wynebu rhai o heriau dyfodol yr achos hwn yn Efail Isaf. Wedi i'r Is-bwyllgor ymgynghori'n helaeth ymhlith gwahanol garfanau o fewn yr eglwys, daethpwyd i'r casgliad mai'r flaenoriaeth fyddai targedu gweithgareddau i ddenu a chadw diddordeb pobl ifanc, yn blant a rhieni ifanc, ym mywyd yr eglwys. I gyflawni hyn, teimlid fod angen i ni fuddsoddi mewn cyflogi swyddog rhan amser i gydlynu, arwain a hyrwyddo'r gwaith yn y maes hwn a chyfrannu at weithgareddau i bontio'r berthynas rhwng yr eglwys a'r gymuned leol.

Yn dilyn cyflwyniad y Cadeirydd codwyd nifer o gwestiynau pwysig a pherthnasol o'r 'llawr' ac fe'u hatebwyd yn drylwyr ac ystyrlon gan wahanol aelodau'r Is-bwyllgor. Erbyn cyrraedd y cwestiwn olaf roedd hi'n amlwg iawn fod pawb wedi eu bodloni gyda'r atebion a gafwyd, a'u bod yn teimlo'n hyderus iawn ynghylch y cynllun. Doedd hi'n fawr o syndod felly i'r Cwrdd gymeradwyo argymhelliad yr Is-Bwyllgor Arloesi a Buddsoddi i symud ymlaen i gyflwyno cais i Undeb yr Annibynwyr am gymorth ariannol tuag at gyflogi Swyddog Ieuenctid a Chymunedol, a hynny'n unfrydol. Bellach mae'r cais yn nwylo'r Parchg. Robin Samuel, sef swyddog yr Undeb sydd yng ngofal y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi.

Llywodraeth y DG yn rym er lles y byd?

O fewn ychydig dros wythnos bydd aelodau'r wasg a'r cyfryngau torfol yn anelu am Fae Carbis yng Nghernyw lle bydd arweinwyr gwledydd y G7 a'u gwesteion yn cynnal cynhadledd dan lywyddiaeth y Prif Weinidog, Boris Johnson. Prif amcan y Llywydd fydd cael y prif wledydd democrataidd i 'ymuno yn y frwydr i helpu'r byd fel y gellir adeiladu dyfodol mwy gwyrdd a llewyrchus wedi'r pandemig'. Bydd y digwyddiad yn cynnig cyfle heb ei ail i ddangos y gall Prydain ôl-Brexit fod yn ddylanwad mawr, os nad yn arweinydd, ar y llwyfan rhyngwladol.

Ond mewn ysgrif ddamniol gan Andrew Rawnsley a gyhoeddwyd yn yr *Observer* yr wythnos ddiwethaf, datgelir sut mae statws y Deyrnas Gyfunol fel gwladwriaeth oleuedig wedi gostwng yn ddiweddar. Mae'n ein hatgoffa sut yr arweiniwyd gwledydd y G7 gan lywodraeth Tony Blair yn 2005 trwy berswadio arweinwyr eraill hefyd i gynyddu eu cyfraniadau tuag at gymorth rhyngwladol i ddatblygu gwledydd oedd yn dioddef tloti, heintiau a rhyfeloedd. Ar waethaf cwmp ariannol 2008, fe lynodd Gordon Brown at yr ymrwymiad hwnnw, ac o dan David Cameron pasiwyd deddfwriaeth i gyfrannu 0.7% o'r incwm 'cenedlaethol' ar gymorth rhyngwladol, sef y targed a osodwyd gan y Cenhedloedd Unedig. Dyma un polisi'r wladwriaeth y medrwn i gyd ymfalchïo ynddo.



Tro ar fyd

Ond mae Rawnsley yn dangos yn ei ddadansoddiad manwl a threiddgar bod y Llywodraeth wedi manteisio ar yr argyfwng ariannol a gododd yn sgil Covid-19 i ddad-wneud llawer iawn o gymorth dyngarol gwerthfawr y pymtheg mlynedd diwethaf, a hynny'n ddiarwybod i'r rhan fwyaf ohonom.

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21



'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin
gyda

JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, ebostiwch:
cristnogaeth21@gmail.com
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu,
a dolen i ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100
Tâl ymuno: £8 y ddyfais

Yn ddiweddar, maent wedi cwtogi'r cyfraniad i gymorth rhyngwladol o draean o'r swm blaenorol. Ond hyd yn oed yn fwy difrifol na hyn yw bod Gweinidogion y Llywodraeth wedi treulio saith awr yn unig yn penderfynu ar doriadau i'r cymorth oedd yn werth £2.9 biliwn. Syrthiodd y fwyell yn bennaf ar y gwledydd tlotaf, a'r gwledydd hynny lle roedd yr angen ar ei lefel mwyaf argyfyngus.

Bellach, ystyrir fod cyfraniad y Wladwriaeth i ymgyrchoedd cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig yn cael ei gynnwys gyda chefnogaeth dyngarol. Yn y cyfamser, mae'r cymorth i'r argyfwng difrifol yn yr Yemen wedi gostwng o 56% a'r gefnogaeth i ddulliau atal cenhedlu yn y gwledydd difreintiedig wedi gostwng o 85%.

Ond yr hyn sy'n fwyaf anodd ei dderbyn yn nadansoddiad Rawnsley yw mai ffactorau pleidiol ac nid rhai economaidd sy'n esbonio'r toriadau yma, a hynny er mwyn tawelu aelodau asgell dde y Ceidwadwyr sy'n gwrthwynebu cyfrannu at gymorth dyngarol dramor.

Does ond gobeithio y gall carfan llawer mwy goddefgar ymhlith aelodau seneddol y Ceidwadwyr sicrhau tro pedol i'r polisi presennol gyda chymorth y gwrthbleidiau. Gall yr eglwysi hefyd ddwysáu eu gwrthwynebiad i'r dirywiad diweddar yn y maes hwn.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.